
YR EGLWYS YNG NGHYMRU THE CHURCH IN WALES

# Wythnos 2- Byddwch yn greadigol


## #addewidagobaith #hopeandpromise



Gweddïwn

Diolchwn i ti o Dduw fod yr Iesu wedi dod i farw drostom ar y groes, y groes sy'n dod â gobaith i ni gyd. Helpa ni i gofio, er fod y groes yn dod â thristwch, rydym ni fel Cristnogion yn hapus achos gwyddwn fod yr Iesu wedi atgyfodi drostom ni.
Diolchwn hefyd ein bod yn rhan o'ch cynllun ar gyfer ein byd, cynorthwywch ni i ddod ag eraill atoch chi.
Felly wrth i ni ddathlu'r Pasg, gadewch i ni gofio bod yr Iesu yn dod â bywyd a llawenydd newydd i'n bywydau ac mai Ef yw'r ateb i'n gobeithion, breuddywdion a'n gweddiau.

Amen



Gwn fod llawer o'n plant a'u teuleuoedd yn mwynhau gweithgareddau creadigol unai yn yr ysgol, adref neu yn yr eglwys. Dyma chydig o esiamplau sy'n canolbwyntio ar y neges o obaith ac sy'n hawdd i'w gwneud adref.

Rhufeiniaid 15:13-15
Felly dwi'n gweddïo y bydd Duw, ffynhonnell gobaith, yn llenwi'ch bywydau gyda'r llawenydd a'r heddwch dwfn sy'n dod o gredu ynddo; ac y bydd yr Ysbryd Glân yn gwneud i obaith orlifo yn eich bywydau chi!

## Dwylo'n helpu





Mae toes halen yn ffefryn ac yn hawdd i'w wneud.
Cymysgwch 1 cwpan o flawd plaen, ½ cwpan o halen a ½ cwpan o ddwr.
Rholiwch yn siâp cylch. Pwyswch ddwylo aelodau o'r teulu yn y cylch a sgwrsiwch am sut mae pawb yn helpu eu gilydd yn eich tŷ chi. Pa bethau arall fyddai bosib ei gwneud i gynorthwyo ein gilydd?

Pobwch am 3 awr ar dymheredd isaf eich popdy. Peintiwch gyda'ch gilydd.


## Creu pot Gobaith



Chwiliwch am botyn neu dwb, gallwch ei addurno neu beidio. Pan ydych chi'n teimlo'n drist neu yn methu eich ffrindiau ysgrifennwch i lawr ar ddarn o bapur beth hoffech chi wneud pan welwch chi nhw eto. Llenwch eich potyn hefo bob math o bethau ydych chi'n edrych ymlaen i'w gwneud.

Byddwch un diwrnod yn cael tynnu'r syniadau allan o'r potyn gobaith a cychwyn gwneud eich hoff bethau eto

## Cymylau Gobaith




Bydd enfys yn ymddangos ar ôl y glaw. Creuwch gwmwl glaw. Yna torrwch galonnau yn lle dafnau o law. Gallwch eu lliwio yn lliwiau'r enfys ac yna ysgrifennu enwau eich teulu a ffrindiau arnynt. Efallai i chi hoffi ysgrifennu gweddi yn gofyn i Dduw gadw chi gyd yn ddiogel a gobeithio y byddwch gydach gilydd yn fuan.

I greu Cwmwl Gobaith byddwch angen:


- Siswrn
- Siâp cwmwl allan o bapur neu gardfwrdd
- Siâp calonnau neu dafnau o law allan o bapur neu gardfwrdd
- Pensiliau neu binnau ffelt lliw
- Glud neu tâp selo
- Rhuban, gwlan, cortyn neu edau.

## Enfys o wrthrychau!

Tynnwch lun o saith gwrthrych sydd o amgylch eich tŷ neu gardd. Mi ddyliau pob llun fod yn liw gwahanol o'r enfys. Gall fod yn un llun mawr neu saith o luniau llai.
Cofiwch i'r indigo a fioled gallwch ddefnyddio glas tywyll a piws golau.








## Croesau Creadigol Y Pasg

Mae croes yn symbol pwerus Cristnogol, ac yn ystod y Pasg mae'r groes yn helpu i ni ddathlu bywyd yr Iesu.
Eich sialens yw i fod yn greadigol ac i greu croes allan o unrhyw ddeunydd yr hoffech. Ewch amdanni.

Dyma rhai eisamplau gan ddisgyblion Ysgol y Santes Fair, ysgol yr Eglwys yng Nghymru, a hwythau hefyd adref yn cael eu haddysgu.

### Sut gall hwn gysylltu â cwricwlwm yr ysgol?

Drwy ddatblygu'r sgiliau i fod yn unigolyn hyderus, iach, ystwyth sy'n dangos empathi dros eraill. Sgiliau holl bwysig i'ch meddwlgarwch emosiynol.

Follow us on twitter @churchinwales

@diostaspahedu @PoblDewi @YsgolionB @llandaffed @swanbreced @apmdaly